Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2017

## Medi 2017

**Diben Estyn[1] yw arolygu ac adrodd ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru, gan gynnwys:**

- i ba raddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr ac yn cyfrannu at eu datblygiad a'u lles
- y safonau sy'n cael eu cyflawni
- ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae Estyn yn arolygu'r sectorau canlynol:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn yn cydweithio ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru i weithredu datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio (AARh)[2].

Mewn partneriaeth ag Ofsted, mae Estyn yn gyfrifol am arolygu dysgwyr yn Lloegr sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n mynychu colegau arbennig annibynnol, cyrsiau dysgu yn y gwaith, a darpariaeth i bobl ifanc mewn timau troseddwyr ifanc. Mae Estyn yn arolygu, trwy gydweithio ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, addysg troseddwyr mewn ystadau diogel a charchardai yng Nghymru.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn hyrwyddo lledaenu arfer orau wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

---

[1] Mae prif swyddogaethau Estyn wedi'u hamlinellu yn adrannau 75 i 78 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac adran 20 Deddf Addysg 2005

[2] Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru, Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru, Medi 2009

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **1 Cyflwyniad** | **1** |
| 1.1 Cyflwyniad a chefndir | 1 |
| 1.2 Gofynion adrodd blynyddol | 1 |
| 1.3 Ein Hamcanion Strategol a’n Hegwyddorion Cyflwyno | 2 |
| **2 Cynnydd a gweithgareddau yn erbyn amcanion** | **4** |
| **3 Gwybodaeth am gyflogaeth** | **9** |
| 3.1 Cynrychiolaeth y gweithlu | 10 |
| 3.2 Math o swydd, gradd, cyflog, math o gontract a phatrwm gweithio | 11 |
| 3.3 Recriwtio | 12 |
| 3.4 Hyfforddiant | 14 |
| 3.5 Gweithdrefnau achwyn a disgyblu | 15 |
| 3.6 Ymadawyr | 15 |
| **4 Crynodeb** | **16** |
| Atodiad 1 | **17** |

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad a chefndir

Y ddogfen hon yw'r Diweddariad Cynnydd Blynyddol cyntaf yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ac Amcanion Cydraddoldeb 2016-2010 Estyn, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017.

Cyhoeddwyd y CCS yn Ebrill 2016 gan Estyn, ar ôl ystyried arfer orau, cyfrifoldebau cyfreithiol a thrafodaethau lleol. Defnyddiwyd profiad o'r CCS blaenorol hefyd wrth gynllunio'r cynllun pedair blynedd nesaf. Mae'r CCS yn ategu Amcanion Cydraddoldeb Estyn ac yn amlinellu gwybodaeth allweddol am ein gweithgarwch cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Yn ogystal â chyflawni ein dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ystyried ystod eang o ddeddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae dyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi 'ystyriaeth briodol' i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheiny nad ydynt yn rhannu nodwedd
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd

Mae'r CCS yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig sy'n ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil (gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)
- rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

## 1.2 Gofynion adrodd blynyddol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu gwybodaeth, fel sy'n ofynnol gan y Dyletswyddau Penodol ar gyfer Cymru, am y camau a gymerwyd gan Estyn i fodloni ei rwymedigaethau ar gyfer y cyfnod adrodd 2016-2017 dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd fel a ganlyn:

- y camau a gymerwyd gan y corff rhestredig i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

- sut mae'r corff cyhoeddus wedi defnyddio'r wybodaeth hon i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol
- unrhyw reswm dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol
- datganiad ar effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr awdurdod
- datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan yr awdurdod i gyflawni pob un o'i amcanion cydraddoldeb
- gwybodaeth benodedig am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog (oni bai ei fod wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon eisoes rywle arall)

Gallai Estyn gynnwys unrhyw fater arall yn ei adroddiadau blynyddol sydd, yn ei farn ef, yn berthnasol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol.

## 1.3 Ein Hamcanion Strategol a'n Hegwyddorion Cyflwyno

Mae CCS Estyn yn darparu fframwaith ac amcanion cydraddoldeb ar gyfer gweithredu ac ymgorffori gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n hyrwyddo cymdeithas gyfartal ac amrywiol. Mae hefyd yn cadarnhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, urddas a pharch fel y cânt eu hymgorffori o fewn egwyddorion Hawliau Dynol.

Mae'r Cynllun yn manylu ar y camau gweithredu a gynlluniwyd yn ystod y pedair blynedd y mae'r Cynllun yn eu cwmpasu, sef 2016-2020. Bydd angen cwblhau rhai o'r camau gweithredu unwaith yn unig yn ystod y cyfnod hwn, rhai ohonynt bob blwyddyn, a rhai pan fo'n briodol. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf y CCS, sef 2016-2020, ar gamau gweithredu sy'n cefnogi'r amcanion yn y cynllun ac, fel y cyfryw, dylid ei ddarllen ar y cyd â'r CCS.

Byddwn yn cynnal ac yn adeiladu ar yr ymrwymiadau a fynegir yn ein cynlluniau blaenorol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn ein holl swyddogaethau a gwasanaethau
- cymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo amrywiaeth yn ein gweithle
- rhoi gwerth cadarnhaol ar amrywiaeth a chredu y gall gwahaniaethau yn ein gweithlu ychwanegu gwerth a'n gwneud yn gryfach, yn fwy hyblyg ac, yn y pen draw, yn fwy abl i gyflwyno gwasanaethau arolygu a chyngor sy'n bodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru
- gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth, cyflogai presennol neu ddarpar gyflogai neu ymgeisydd am swydd yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail unrhyw nodwedd warchodedig
- gwrthod goddef gwahaniaethu, erledigaeth, bwlio neu aflonyddwch, uniongyrchol neu anuniongyrchol, bwriadol neu anfwriadol, yn erbyn unrhyw un ar ba sail bynnag, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r nodweddion gwarchodedig hynny a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl beth bynnag fo'u cefndir neu'u nodwedd, o fewn ein gweithlu ac yn y gymuned ehangach lle bo modd, er mwyn dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb

Mae Bwrdd Gweithredol a Grŵp Ymgysylltu â Chyflogeion Estyn yn monitro cynnydd yr amcanion a osodwyd yn y CCS ac yn ystyried materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn.  Fel y nodwyd yn y CCS, mae dau swyddog arweiniol yn Estyn sydd â thasg benodol i sicrhau bod Estyn yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb; un ar gyfer arolygu ac un ar gyfer polisi corfforaethol.

Mae sawl un o gyhoeddiadau Estyn eisoes yn cyfeirio at ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys y canlynol:

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-2017

Cynllun Blynyddol 2017-2018

Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Estyn

## 2 Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Cynnydd a gweithgareddau yn erbyn amcanion 2016-2017

| **Amcan 1: Sicrhau bod hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol a dileu gwahaniaethu ac aflonyddwch yn cael eu hymgorffori a'u dangos ar draws Estyn** | | |
|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau gweithredu** | **Nodwedd benodol gysylltiedig** |
| 1.1 | **2016-2017**<br>Caiff arolwg ei ddosbarthu i'r holl staff ym Medi 2017 i geisio eu barn ar sut mae Estyn yn ymdrin â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gorfforaethol, a pha gamau gweithredu pellach y gellid eu cymryd i godi ymwybyddiaeth neu wella prosesau a pholisi. | Pob un |
| 1.2 | **2016-2017**<br>Mae staff yn parhau i gael hyfforddiant ar ymarferoldebau Deddf Cydraddoldeb 1010, gan sicrhau y gallant ddadansoddi'r effeithiau ar ansawdd penderfyniadau a pholisi a gweithredu'n unol â gwerthoedd Estyn. | Pob un |
| 1. 3 | **2016-2017**<br>Mynychodd yr holl newydd-ddyfodiaid raglen ymsefydlu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yn cynnwys cyflwyniad i'r Ddeddf Cydraddoldeb a sut mae Estyn yn cyflawni ei ddyletswyddau. | Pob un |
| 1.4 | **2016-2017**<br>Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp Ymgysylltu â Chyflogeion. Mae hyn yn sicrhau y caiff cyfleoedd eu creu i drafod ac ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, a rhannu arfer dda ac archwilio cyfleoedd i hyrwyddo digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth e.e. diwrnodau cenedlaethol. Ysgrifennwyd erthyglau ar gyfer y cylchlythyr staff mewnol yn 2016-2017:<br>• Yn manylu ar ôl y ddau swyddog sydd â rôl arweiniol dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn Estyn<br>• Iechyd meddwl yn y gwaith<br>• Cam-drin domestig<br>• Sefydliad Anawsterau Dysgu Prydain<br>Presenoldeb yng ngŵyl ffilmiau Swyddfa Archwilio Cymru a rhwydweithio â'r rhai a oedd yn bresennol. Cafwyd trafodaethau cychwynnol â Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch sefydlu grŵp Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol o fewn Arolygiaethau Cymru. | Pob un |

| Cyf | Camau gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 1.7 | **2016-2017**<br>Cynhaliwyd adolygiad o'r holl Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar swyddogaethau, polisïau ac arferion newydd neu ddiwygiedig, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson. Datblygwyd asesiad byrrach hefyd i gwmpasu polisïau y mae angen eu diweddaru, ond nad oedd y newidiadau'n ddigon sylweddol i fynnu asesiad hollol newydd. Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu ar ôl iddi fod ar waith am flwyddyn. | Pob un |
| 1.10 | **2016-2017**<br>Yn ystod 2016-2017, ni chawsom unrhyw gwynion am ein dulliau cyfathrebu ac adrodd. Ymgymerwyd â gwaith sylweddol ar ddechrau'r flwyddyn adrodd i sicrhau bod ein dulliau'n cydymffurfio ag arweiniad ar hygyrchedd, a byddwn yn parhau i fonitro i sicrhau ein bod yn gwybod ar yr arfer orau ddiweddaraf. | Pob un |
| 1.11 | **2016-2017**<br>Yn unol â'r manylion yn 1.10. | Pob un |
| **Amcan 2: Meithrin cysylltiadau da rhwng y rheiny sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheiny nad ydynt yn rhannu nodwedd** | | |
| 2.1 | **2016-2017**<br>Rydym yn parhau i roi cyhoeddusrwydd (ar ein mewnrwyd) i wybodaeth ddefnyddiol a hyrwyddo digwyddiadau sy'n ymwneud â grwpiau nodweddion gwarchodedig amrywiol. Yn fwy penodol, bu'r erthyglau a rannwyd yn ymwneud â diweddariadau newyddion a digwyddiadau gan:<br>PRISM (Grŵp Llywodraeth Cymru)<br>Stonewall Cymru a grwpiau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol | Pob un |
| 2.2 | Mae Estyn wedi hyrwyddo cyfle cyfartal trwy gyhoeddiadau ar Sharepoint, hysbysfyrddau a thrwy gylchlythyr Estyn – gweler 1.4 a 2.1 uchod. | Pob un |

| Cyf | Camau gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 2.3 | **2016-2017**<br>Mae cysylltiad o hyd rhwng Estyn a rhwydweithiau nodweddion gwarchodedig Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi cyfle i staff Estyn fanteisio ar y grwpiau hyn, mynychu digwyddiadau, codi ymwybyddiaeth a rhoi cymorth. | Pob un |
| **Amcan 3: Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheiny nad ydynt yn rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol** | | |
| 3.2 | **2016-2017**<br>Rydym yn parhau i fonitro amrywiaeth ein gweithlu trwy ein holiadur monitro, a byddwn yn ystyried pa mor aml y caiff ei gynnal. Ceir manylion am ganlyniadau ymarfer monitro 2016-2017 yn Adran 3. | Pob un |
| 3.3 | **2016-2017**<br>Byddwn yn parhau i weithredu ein Polisi Gweithio Hyblyg, sy'n darparu ystod eang o opsiynau gweithio e.e. darparu hyblygrwydd i gynorthwyo â rheoli ymrwymiadau teuluol. Yn 2016-2017, cafwyd 6 chais i weithio'n hyblyg, y bu pedwar ohonynt yn llwyddiannus ac mae 2 ohonynt yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Mai. | Rhyw<br>Beichiogrwydd a mamolaeth<br>Anabledd |
| 3.5 | **2016-2017**<br>Rhaid i'r holl staff ymgymryd ag asesiad o'u gweithfan yn rheolaidd. Yn ogystal, darparwyd offer ergonomig i 12 aelod staff i help i liniaru effaith y problemau roeddent yn eu cael â'u gweithfannau. Caiff aseswyr allanol eu defnyddio i ddarparu asesiadau wrth y ddesg i ddewis cadair briodol, a phrynwyd 12 o gadeiriau trwy'r broses hon yn 2016-2017.<br>Wrth ddewis llety, mae'r staff sy'n ei neilltuo yn sicrhau eu bod wedi ystyried gofynion staff sydd â gofynion penodol o ran llety. | Anabledd |
| 3.6 | **2016-17**<br>Caiff yr adborth o ddigwyddiadau allanol ei fonitro'n barhaus i asesu cyfleusterau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ar gyfer pob nodwedd warchodedig. | Pob un |

| Cyf | Camau gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 3.7 | **2016-2017**<br>Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddarparu'r holiadur i ddysgwyr/rhieni mewn unrhyw iaith arall heblaw'r 26 iaith a ddarperir ar hyn o bryd. | Pob un |
| **Amcan 4: Sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei ymgorffori yn ein prosesau recriwtio a dethol** | | |
| 4.1 | **2016-2017**<br>Ni chodwyd unrhyw faterion yn yr Archwiliad Cydymffurfio â Recriwtio blynyddol o'n gweithdrefnau recriwtio a dethol a gynhelir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n sicrhau i ni fod aelodau paneli recriwtio yn ddigon ymwybodol o faterion Cydraddoldeb am Amrywiaeth, a'n bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i gyfansoddiad y panel mewn cysylltiad â'r ymarfer recriwtio. | Pob un |
| 4.2 | **2016-2017**<br>Rydym yn parhau i ddefnyddio symbol 'dau dic' 'cadarnhaol ynghylch pobl anabl' i ddangos ein hymrwymiad i gefnogi staff anabl. | Anabledd |
| 4.3 | **2016-2017**<br>Gofynnwyd i'r holl ymgeiswyr swydd lenwi ein ffurflen monitro cyfle cyfartal.<br>Rydym yn parhau i fonitro a dadansoddi gwybodaeth recriwtio, archwilio rhesymau am unrhyw ddeilliannau gwahaniaethol, a chymryd camau adferol, lle bo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu a'n bod yn hyrwyddo cyfle cyfartal. | Pob un |
| 4.4 | **2016-2017**<br>Yn ogystal â hysbysebu swyddi gwag ar wefan recriwtio'r Gwasanaeth Sifil, yn y wasg genedlaethol ac mewn cyhoeddiadau eraill sy'n benodol i swyddi, rydym yn parhau i sicrhau bod ein hysbysebion yn cyrraedd cynulleidfa eang sy'n cynnwys yr holl grwpiau nodweddion gwarchodedig trwy anfon ein swyddi gwag at:<br>• Race Equality First<br>• Anabledd Cymru<br>• Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd<br>• Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru | Pob un |

| Cyf | Camau gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 4.4 parhad | • Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe<br>• Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru<br>• Rhwydwaith i Fenywod Ethnig Lleiafrifol<br>• Cwmni Cydweithredol ar gyfer Gweithwyr Anabl | Pob un |
| 4.5 | **2016-2017**<br>Ni chawsom unrhyw gwynion yn datgan bod ein swydd ddisgrifiadau a'n hysbysebion swyddi yn gwahaniaethu ar sail oedran. Ni yw ffurflenni cais yn gofyn i ymgeiswyr ddatgan eu hoedran.<br><br>Gwneir penodiadau trwy gystadleuaeth agored, gan ddewis ar sail asesu yn erbyn cymwyseddau'r swydd, heb ystyried unrhyw nodweddion personol.<br><br>O dan Bolisi Gweithio'n Hyblyg Estyn, gwnaeth 6 aelod staff gais i weithio'n hyblyg (caiff penderfyniadau i ganiatáu gweithio oriau rhan-amser eu hasesu yn erbyn meini prawf angen y busnes) yn 2016-2017, y cymeradwywyd 4 ohonynt ac mae 2 ohonynt yn aros am benderfyniad. | Pob un |
| **Amcan 5: Sicrhau bod ein prosesau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol** | | |
| 5.1 | **2016-2017**<br>Mae ein Telerau ac Amodau Contract yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddatgan eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r arweiniad sydd ar gael ar hyn o bryd yn datgan bod yn rhaid i'r holl gontractwyr sy'n ymgysylltu ag Estyn weithredu yn unol â pholisïau (gan gynnwys unrhyw bolisïau gwahaniaethu ar sail hil a chyfle cyfartal), rheolau, gweithdrefnau a safonau ansawdd y Cleient fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd. Cymhwyswyd hyn i bob contract a ddyfarnwyd yn 2016-2017. | Pob un |
| 5.2 | **2016-2017**<br>Gwnaethom sicrhau y datblygwyd ein presenoldeb cydraddoldeb ymhellach wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, trwy ddefnyddio arfer orau sydd i'w weld mewn sefydliad eraill. Sicrhaodd caffael trwy fframweithiau a phyrth a gynhelir gan y llywodraeth ein bod yn manteisio ar brotocolau sector cyhoeddus cytûn wrth gymhwyso cydraddoldeb i'r broses gontractio. | Pob un |

| **Amcan 6: Trwy ein harolygiadau a'n gwaith arolwg, hyrwyddo cydraddoldeb a nodi arfer dda a lledaenu'r arfer dda honno ar draws y sectorau addysg perthnasol** | | |
|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau gweithredu** | **Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig** |
| 6.1 | **2016-2017**<br>Mae Astudiaethau Achos Arfer Orau ar gael yma - Astudiaethau Achos Arfer Orau<br>Yn ystod 2016-2017, cyhoeddwyd nifer o astudiaethau achos yn cwmpasu rhai o'r materion cydraddoldeb ac amrywaeth a'r nodweddion gwarchodedig. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Gwella Lleferydd ac Iaith Disgyblion<br>• Gwella deilliannau i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim<br>• Annog dysgwyr sy'n llai ymgysylltiedig<br>• Helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gyrraedd eu potensial<br>• Ymgysylltu â rhieni i wella presenoldeb disgyblion<br><br>Mae Adroddiadau Thematig i'w gweld yma - Chwilio am adroddiad thematig.<br>Yn ystod 2016-2017, cyhoeddwyd nifer o adroddiadau thematig yn cwmpasu rhai o'r materion cydraddoldeb ac amrywaeth a'r nodweddion gwarchodedig. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru<br>• Codi Lefelau Cyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal | Pob un |
| 8.3 | **2016-2017**<br>Mae'r Trefniadau Arolygu Newydd (TAN), a fydd yn cael eu cyflwyno ym Medi 2017, wedi adolygu a diweddaru sut yr eir i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y broses arolygu. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod ymgynghoriadau'r TAN yn cynnwys grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd; mae'r grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw i'w gweld yn Atodiad 1. | Pob un |
| 8.4 | Yn gyffredinol, bydd hunanarfarniad y darparwr yn dilyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin (FfAC) ac yn cynnwys agweddau ar gydraddoldeb a hawliau dynol, yn unol ag 8.3 uchod. | Pob un |
| 8.6 | **2016-2017**<br>Trafodwyd gwybodaeth a gasglwyd o'r arolwg staff a gynhaliwyd fis Hydref 2016 yn fanwl ar lefel y Bwrdd Gweithredol ac yn y Grŵp Ymgysylltu â Chyflogeion. Yn dilyn hyn, ysgrifennodd aelodau | Pob un |

| Cyf | Camau gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 8.6 parhad | **2016-2017**<br><br>staff o’r Grŵp Ymgysylltu â Chyflogeion erthygl ar gyfer y cylchlythyr staff yn egluro’r ffyrdd y gall staff godi pryderon yn ymwneud ag ymddygiad amhriodol a rhoi gwybod am faterion yn ymwneud â bwlio ac/neu aflonyddu. | Pob un |

## 3 Gwybodaeth am gyflogaeth


Mae’n ofynnol i Estyn gasglu a chyhoeddi gwybodaeth gyflogaeth am ei gyflogeion yn ôl nodweddion gwarchodedig bob blwyddyn. Wrth gyhoeddi’r wybodaeth hon, mae’n bwysig sicrhau bod gofynion y Ddeddf Diogelu Data yn cael eu bodloni, a diogelu hawliau cyflogeion i gyfrinachedd.

At ddibenion y wybodaeth hon, mae ‘Heb ddatgan’ yn cyfeirio at nifer y staff nad ymatebodd i gwestiwn am fonitro amrywiaeth, ac mae ‘Ddim eisiau dweud’ yn cyfeirio at nifer y staff sydd wedi dewis peidio â datgelu’r wybodaeth wrth ymateb i gwestiwn penodol am fonitro amrywiaeth. Rydym yn parhau i gymharu ein hystadegau â data’r Cyfrifiad a’r Gwasanaeth Sifil, ac wrth gymharu ein hystadegau â’r data diweddaraf sydd ar gael, ni nodwyd unrhyw anghysondebau. Cafwyd yr holl ddata o System Wybodaeth Adnoddau Dynol Estyn.

Ni chynhwyswyd labeli data ar gyfer ffigurau yn is na 10%.


## 3.1 Cynrychiolaeth y gweithlu

Ar 31 Mawrth 2017, roedd Estyn yn cyflogi 116 o bobl. Caiff y data hwn ei ddadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig yn Ffigur 1.




## 3.2 Math o swydd, gradd, cyflog, math o gontract a phatrwm gweithio

Mae Ffigur 2 yn dangos nifer y dynion a'r menywod a gyflogir yn ôl y math o swydd, gradd, cyflog, math o gontract a phatrwm gweithio ar 31 Mawrth 2017.




## 3.3a Recriwtio 1

Yn 2016-2017, cafodd Estyn 206 o geisiadau gan unigolion yn gwneud cais am swyddi gydag Estyn trwy recriwtio allanol agored. Gwnaethom hysbysebu ar gyfer nifer o swyddi o lefel Swyddog Gweinyddol i Gyfarwyddwr Strategol. Penodwyd cyfanswm o 15 o bobl. Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys cyflogeion presennol yn gwneud cais am swyddi gwag trwy gystadleuaeth agored. Mae Ffigurau 3a a 3b yn dangos nifer yr ymgeiswyr a’r penodiadau a wnaed trwy recriwtio allanol agored yn ôl nodwedd warchodedig rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Nid ydym yn gofyn i ymgeiswyr roi gwybod i ni os ydynt yn feichiog neu ar gyfnod mamolaeth fel rhan o’r broses recriwtio.




## 3.3b Recriwtio 2



## 3.4 Hyfforddiant

Yn 2016-2017, cafodd Estyn 153 o geisiadau am hyfforddiant gan gyflogeion. Nid yw’r ffigur hwn yn cynnwys wythnosau datblygiad proffesiynol na rhwydweithiau sector ar gyfer Arolygwyr a diwrnodau cwrdd i ffwrdd Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer staff Gwasanaethau Corfforaethol. Llwyddodd yr holl gyflogeion a wnaeth gais am hyfforddiant yn eu cais.

Mae Ffigur 4 yn dangos nifer y cyflogeion a gwblhaodd hyfforddiant rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 yn ôl nodweddion gwarchodedig.




## 3.5 Gweithdrefnau achwyn a disgyblu

Roedd llai na pum aelod staff yn rhan o weithdrefn achwyn a adroddwyd o dan y weithdrefn ffurfiol, naill ai fel y sawl a oedd yn achwyn neu'n ymatebydd, yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017. Felly, ni allwn adrodd ar y data oherwydd y niferoedd bach dan sylw.
Nid oedd unrhyw staff yn destun achosion disgyblu ffurfiol yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017.

## 3.6 Ymadawyr

Roedd 15 o ymadawyr yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017. Mae Ffigur 5 yn dangos proffil yr ymadawyr yn ôl nodweddion gwarchodedig.



## 4 Crynodeb

**4.1** Mae’r Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos y cynnydd a wnaed gan Estyn o ran cyflawni’r amcanion a amlinellir yn y CCS, a bydd parhau i fonitro’r gweithgarwch hwn yn sicrhau y caiff y cynnydd hwn ei gynnal.

**4.2** Gan ddefnyddio’r canlyniadau o’n gwaith Monitro Cyflogaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, unrhyw arfer orau newydd a nodir a sylwadau a geir gan randdeiliaid, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein cynllun gweithredu yn addas i’r diben ac yn bodloni’r amgylchedd cyfnewidiol y mae'n gysylltiedig ag ef.

| | Atodiad 1 |
|---|---|
| **Sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw ar y Trefniadau Arolygu Newydd** | |
| **Categori** | **Sefydliad** |
| | Cenedlaethol<br>1 Cyngor Ffoaduriaid Cymru<br>2 Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru<br>3 Cyngor Hil Cymru<br>4 Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru<br>5 BAWSO<br>6 Alltudion ar Waith |
| | Canol de Cymru<br>7 Race Equality First<br>8 Cymdeithas Tai Pwylaidd Caerdydd<br>9 Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd Cymru<br>10 Cymdeithas Tsieineaidd De Cymru<br>11 Oasis Caerdydd<br>12 Canolfan Gymunedol De Glan yr Afon |
| | De-ddwyrain Cymru<br>13 SEWREC<br>14 The Sanctuary Project, Casnewydd<br>15 Cymdeithas Pacistanaidd Casnewydd a Gwent |
| | De-orllewin Cymru<br>16 Canolfan Gymunedol Affricanaidd, Abertawe<br>17 Cymdeithas Cymry-Pwyliaid, Llanelli |
| | Gogledd Cymru<br>18 Cymdeithas Tsieineaidd Gogledd Cymru<br>19 BAWSO, Wrecsam |
| 2 Pobl ag anableddau corfforol | 20 Anabledd Cymru<br>21 Mencap Cymru<br>22 Scope Cymru<br>23 Chwaraeon Anabledd Cymru<br>24 Celfyddydau Anabledd Cymru<br>25 Leonard Cheshire Disability Cymru<br>26 Aspire<br>27 Rhwydwaith Rhieni Anabl<br>28 Cymdeithas MS Cymru<br>29 Mirus Wales<br>30 Shaw Trust<br>31 SNAP Cymru |
| 3 Pobl â namau ar y golwg neu'r clyw | 32 RNIB Cymru<br>33 Action on Hearing Loss Cymru<br>34 Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru<br>35 Sight Cymru<br>36 Deaf Access Cymru<br>37 Cymdeithas Pobl Fyddar Gogledd Cymru<br>38 Cyngor Cymru i Bobl Fyddar<br>39 Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru<br>40 Sefydliad y Deillion Caerdydd |

| | Atodiad 1 (parhad) |
|---|---|
| **Sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw ar y Trefniadau Arolygu Newydd** | |
| **Categori** | **Sefydliad** |
| | 41 Cyngor Cymru i'r Deillion<br>42 Sense<br>43 Deafblind Cymru |
| 4 Pobl ag anawsterau dysgu | 44 Anabledd Cymru<br>45 People First<br>46 Anabledd Dysgu Cymru<br>47 Dyslecsia Cymru<br>48 Leonard Cheshire Disability Cymru<br>49 Mirus Wales<br>50 Shaw Trust<br>51 SNAP Cymru |
| 5 Pobl â phroblemau iechyd meddwl | 52 Mind<br>53 Anabledd Cymru<br>54 Hafal<br>55 Gofal<br>56 Bipolar UK Cymru<br>57 Shaw Trust<br>58 Pobl Cymru |
| 6 Sipsiwn a theithwyr | 59 Sipsiwn a Theithwyr Cymru<br>60 Achub y Plant Cymru – Prosiect Teithio Ymlaen<br>61 Romani Cultural & Arts Company<br>62 Swyddogion cyswllt mewn awdurdodau lleol (trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) |
| 7 Cymunedau gwledig/ arunig iawn | 63 Talysarn (Gwynedd)<br>64 Penycae a Phant (Wrecsam)<br>65 Llangefni (Ynys Môn) |